COFNODION O GYFARFOD CYNGOR TREF BAE COLWYN A GYNHALIWYD YN SIAMBR Y CYNGOR, NEUADD Y DREF, FFORDD RHIW, BAE COLWYN, NOS LUN, 3YDD MEDI 2018 AM 6.30 P.M.

YN BRESENNOL: Maer y Dref, Y Cynghorydd S Williams (Cadeirydd)
Y Cynghorwyr N. Bastow, D. Bradley, C. Brockley, Mrs H. Fleet; M.A. Jones, Mrs M Jones; A Mason, C. Matthews, J Pearson, P Richards, M. Tasker, M. Worth.

SWYDDOG: Mrs C. J. Earley, Clerc y Dref

HEFYD YN BRESENNOL: Cynghorydd C. Carlisle, Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy

162/18 Croeso ag Ymddiheuriadau am Absenoldeb:

Croesawyd yr Aelodau i'r cyfarfod gan y Maer a chyflwynwyd ymddiheuriadau am absenoldeb oddi wrth y Cynghorwyr Mrs G Baker; B. Barton, Mrs G. Campbell, D. Howcroft, A Khan, T Pearson a Mrs K. Swindon.

163/18 Cyhoeddiadau gan y Maer:

Nid oedd gan y Maer unrhyw gyhoeddiadau.

164/18 Datgan Cysylltiadau:

Atgoffwyd yr aelodau o'r angen iddynt ddatgan unrhyw gysylltiad personol a / neu gysylltiad sy'n rhagfarnu, a natur y fath gysylltiadau. Ni ddatganwyd dim.

165/18 Ymwelwyr a'r Cyngor:

a) Cyflwynodd y Clerc cynnig i'w ystyried oddi wrth y Rhingyll Lee Openshaw, a benodwyd yn ddiweddar i fod yn Swyddog Plismona'r Gymdogaeth leol, i anfon cynrychiolwyr i gyfarfod yn y dyfodol i drafod materion am blismona lleol. Holodd y Clerc a fyddai'n well gan yr Aelodau i ymgysylltiad gyda'r heddlu fod yn rhan o gyfarfod llawn y Cyngor neu gyfarfod Pwyllgor, neu a ddylid ei gynnal y tu allan i gyfarfodydd ffurfiol y Cyngor. Y farn oedd y gallai'r heddlu a'r aelodau bod yn fwy agored a rhydd yn eu trafodaethau os byddant yn cael eu cynnal y tu allan i gyfarfodydd ffurfiol y Cyngor.

Penderfynwyd awgrymu i'r Rhingyll Openshaw ein bod yn cychwyn ar brosiect arbrofol o wahodd cynrychiolydd o heddlu plismona'r gymdogaeth i ddod i gyfarfod anffurfiol gydag aelodau lleol am 6pm, yn union cyn pob cyfarfod llawn y Cyngor ac i wahodd aelodau'r ward mae'r cynrychiolydd yn ei gynrychioli. Bydd hyn, gobeithio yn sicrhau bod pob un o'r chwe ward (tair ardal) yn cael sylw mewn cyfnod o 18 wythnos.

b) Fe nodwyd bydd Steve Swindon, Cerddoriaeth a Ffilm Gymunedol TAPE, yn dod i gyfarfod y Cyngor ar 3ydd Rhagfyr.

c) Ymgysylltiad gyda'r Cyngor Sir (CBSC):

Croesawyd y Cynghorydd Sir, Cheryl Carlisle i'r cyfarfod gan y Cadeirydd, a gwahoddwyd iddi gyflwyno adroddiad ar lafar i ddiweddaru aelodau am unrhyw faterion oedd o ddiddordeb lleol. Diolchodd y Cynghorydd Carlisle i'r aelodau am y gwahoddiad i fod yn bresennol a chadarnhaodd ei bod o'r farn bod y cyfarfodydd hyn yn bwysig, ond, fodd bynnag roedd yn anorfod bod y cyfarfodydd hyn yn cyd-ddigwydd a digwyddiadau eraill o bryd i'w gilydd.

Yna rhoddodd adroddiad byr ar lafar yn ymwneud a: y toriadau disgwyliedig yng nghyllideb CBSC o oddeutu £15m, gyda'r prif bwysedd ar gyllidebau gofal cymdeithasol ac iechyd; gwelliannau i'r promenâd / diogelwch rhag y môr yn Hen Golwyn (trafodaethau gyda randeiliaid yn parhau); effaith cau'r A55 ar ardaloedd preswyl / ffyrdd lleol; gorfodaeth amgylcheddol a'r grŵp tasg a gorffen newydd a sefydlwyd yn dilyn ymadawiad cwmni Kingdom; disgwyl i Swyddfa Coed Pella agor yn ôl y trefniant; Proms yn y Parc wythnos nesaf; y testunau disgwyliedig mewn cyfarfodydd yn y dyfodol - ai trosolwg cyffredinol sydd ei angen?

Cafwyd sesiwn byr o holi ag ateb, gyda'r dewis o gael trosolwg cyffredinol i barhau, yn ddelfrydol gydag adroddiadau ysgrifenedig os nad yw aelodau lleol yn gallu bod yn bresennol.

166/18 <u>Cofnodion:</u>

a ***Penderfynwyd cymeradwyo a llofnodi cywirdeb cofnodion cyfarfod diwethaf y Cyngor a gynhaliwyd ar 23ain Gorffennaf 2018.***

b. ***Penderfynwyd <u>derbyn</u> copi o gofnodion y cyfarfodydd canlynol:***
i. Pwyllgor Amcanion Cyffredinol a Chynllunio ar 31ain Gorffennaf 2018.
ii. Pwyllgor Polisi a Chyllid a gynhaliwyd ar 22ain Awst 2018 (drafft)
iii Pwyllgor Amcanion Cyffredinol a Chynllunio a gynhaliwyd ar 28ain Awst 2018 (drafft.)

167/18 <u>Materion yn Codi o'r Cofnodion Hynny :</u>

a) Cofnod 115/18(b) – Y Cynllun Corfforaethol 2018-2022:

Penderfynwyd cymeradwyo'r fersiwn mwy manwl o Gynllun Corfforaethol 2018-2022, i gael ei gyhoeddi ar y wefan (copïau caled ar gael ar gais) ac i gynnwys lluniau'r Cynghorwyr a manylion cyswllt yn unol â'r rhai sy'n ymddangos ar hyn o bryd ar y wefan.

b Cynllun Gwaith 2018-19:

Cyflwynodd y Clerc copi drafft cyntaf cynllun gwaith 2018/19 i'w ystyried. Roedd yn cynnwys y penderfyniadau a wnaed eisoes gan y Cyngor ar gyfer y flwyddyn bresennol. Fe nodwyd mai dogfen gwaith bydd hwn, a chaiff ei adolygu a'i ddiweddaru'n rheolaidd a'i gyflwyno i gael ei gymeradwyo pob chwarter

Penderfynwyd cymeradwyo'r cynllun cychwynnol a nodi bydd hwn yn cael ei ddiweddaru'n rheolaidd, gyda phrosiectau a gweithgareddau

newydd yn cael eu hychwanegu fel y byddant yn cael eu cymeradwyo gan y Cyngor.

c. Cofnod 118/18 – Panel Cynghori NWAMI:

Cyflwynodd y Clerc enwebiad y Cynghorydd C. Matthews i gael ei benodi i gynrychioli'r Cyngor Tref i'w ystyried. Fe nodwyd bydd y cyfarfod cyntaf yn cael ei gynnal ar 11eg Medi. Gofynnodd y Cadeirydd a oedd mwy o enwebiadau. Ni chyflwynwyd dim.

Penderfynwyd penodi Cynghorydd C. Matthews i gynrychioli'r Cyngor Tref ar y Panel a gofyn iddo adrodd yn ôl i gyfarfodydd y Pwyllgor Amcanion Cyffredinol a Chynllunio yn y dyfodol.

ch Cofnod 119/18 – Y Parchedig William Hughes:

Cyflwynodd y Clerc ymateb cychwynnol Dr Marian Gwyn, er gwybodaeth, gan roi linc i weld y ffilm. Roedd yn ateb yn gadarnhaol i'r awgrym, o gael arddangosiad o'r ffilm ar wahân, efallai yn Neuadd y Dref yn ystod mis Hanes Pobl Dduon Cymru ym mis Hydref.

d. Gofynnwyd i'r Aelodau ystyried a chadarnhau argymhellion y Pwyllgorau fel maent yn ymddangos yn y Cofnodion canlynol:

i Cofnod 134/18(b) – Cyfraniad at Offer Chwarae:

Penderfynwyd gofyn i'r Clerc anfon cais at BS i gadarnhau bydd unrhyw arian cyfatebol a dderbynnir gan GBSC o'r cyllid a roddir gan y Cyngor hwn yn cael ei glustnodi i'w ddefnyddio mewn mannau chwarae ym Mae Colwyn yn unig, a rhoi llythyr o gefnogaeth iddo ei ddefnyddio wrth edrych am gyllid grant.

ii Cofnod 134/18(c) – Cymuned yr Arfordir a'r Cyfryngau:

- Datganodd y Cynghorydd J. Pearson cysylltiad personol a chysylltiad all ragfarnu yn yr eitem hon, fel Cyfarwyddwr Cymuned yr Arfordir a'r Cyfryngau, a gadawodd y cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar y mater.

Penderfynwyd yn unfrydol i gymeradwyo gosod y ddwy ystafell gefn i'w ddefnyddio gan yr orsaf radio cymunedol newydd, trwy Denantiaeth Wrth Ewyllys a fydd yn rhoi hyblygrwydd tymor byr i'r ddwy ochr a rhoi incwm i'r Cyngor ar gyfer y costau deiliadaeth.

iii Cofnod 136/18(a) – Arolwg o Sector y Cynghorau Cymuned a Thref yng Nghymru:

Fe nodwyd bod copi o'r adroddiad cryno ar gael gan y Clerc ar gais.

Penderfynwyd gofyn i'r Clerc ysgrifennu at Gymdeithas Cynghorau Lleol Gogledd a Chanolbarth Cymru i ofyn i astudiaeth cael ei wneud am brofiadau datganoli asedau / gwasanaethau ar draws Gogledd a Chanolbarth Cymru.

iv. Cofnod 139/18 – Cynigion gan Aelodau:

Penderfynwyd cymeradwyo'r tri chynnig am brosiectau / polisïau a gyflwynwyd gan Aelodau ac y gwelir manylion amdanynt yn Atodiad B, C & D y cofnodion, sef:

1. ***Canolbwynt Cymunedol a Chanolfan Llesiant Teuluol:***

   Yn dilyn ymgynghori diweddar, bod y Cyngor yn cydnabod, y cadarnhawyd bod yna ddadl ddiamheuol dros greu Canolbwynt Cymunedol mewn rhyw le yng nghanol y dref. Gellir nodi bod y golled o Neuadd yr Eglwys yn St Paul, ychydig flynyddoedd yn ôl, wedi golygu nad oes unrhyw fan ym mherchnogaeth gyhoeddus ar gael i gymuned ganol y dref allu dod ynghyd.

   Hefyd cafwyd awgrym rhagorol y dylid datblygu Canolfan Llesiant Teuluol ym Mae Colwyn. Byddai'r Canolfan hwn yn ymdrin ag anghenion pob teulu yn ardal Bae Colwyn ac yn rhoi cefnogaeth i bob cenhedlaeth, megis llesiant i fam a'i baban, lle i ieuenctid alw i mewn, datblygiad cymunedol a sesiynau galw i mewn i'r henoed.

   Mae'r Cyngor yn cydnabod gellir cynnwys hwn o fewn amcanion allweddol ei Gynllun Corfforaethol, wedi ei alinio i Lesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, a'n bod yn ceisio datblygu safle Douglas Road ymhellach at ddefnydd cymunedol.

2. ***Cyfeillgarwch tuag at Bobl gydag Anableddau ym Mae Colwyn:***

   Bod y Cyngor yn ceisio ymdrin â'r materion a amlinellwyd gan y Cynghorydd Hughes ym mhwyntiau 2, 3 a 4 o'i gynnig (mewn perthynas â chyrbiau isel a draeniau dŵr arwyneb yng nghanol Bae Colwyn).

   Annog pob Cynghorydd i ymwneud a Grŵp Mynediad Conwy a CVSC a chynnal archwiliadau yn eu Wardiau i ddynodi unrhyw faterion yn ymwneud a mynediad, gyda golwg ar ddatblygu prosiect mynediad i'r rhai gydag anableddau er mwyn gwella mynediad i'r anabl ar draws ardal Bae Colwyn.

   Bod y Pwyllgor Amcanion Cyffredinol a Chynllunio yn ceisio sicrhau, lle mae hyn yn ymarferol, nad yw ceisiadau cynllunio yn ychwanegu at y rhwystrau i bobl gydag anableddau cael mynediad.

3. ***Mannau Diogel i Blant cael Chwarae:***

   Bod y Cyngor yn cydnabod bod llesiant ein pobl ifanc yn nod allweddol yn ein Cynllun Gwaith / Corfforaethol. Wrth weithio tuag at hyn, mae'r Cyngor yn cydnabod ymhellach yr angen i gael mannau diogel i blant cael chwarae a byddant yn ceisio annog CBSC (fel yr awdurdod lleol sy'n gyfrifol am ein mannau chwarae) a mudiadau eraill, i sicrhau bod yna ddigon o gyllid ar

gael fel bod mannau chwarae a pharciau sglefrio ar draws ardal Bae Colwyn yn cael eu cynnal a'u cadw mewn cyflwr da.

v. Cofnod 142/18(a) – Digwyddiadau'r Nadolig:

Penderfynwyd cymeradwyo talu'r grantiau i BID Colwyn (£5,000) a Chymdeithas Masnachwyr Llandrillo yn Rhos (£1,000) y ddau ohonynt i dderbyn arian cyfatebol gan BID Colwyn, ar gyfer digwyddiadau / gweithgareddau'r Nadolig.

vi. Cofnod 142/18(c)(i) – Cofeb Rhyfel Hen Golwyn:

Penderfynwyd cymeradwyo grant o £1,575 tuag at y costau o ychwanegu enwau at y gofeb rhyfel mewn amser ar gyfer gwasanaeth Sul y Cofio eleni.

vii Cofnod 142/18(c)(ii) – Gostwng Corunau Coed:

Penderfynwyd cymeradwyo grant bach o £300 ar gyfer gwaith i goed i wella TCC o dir Eglwys St Paul, ar gais gan yr Heddlu / Maer (yn amodol ar gymeradwyaeth Ardal Cadwraeth / y Swyddog Coed).

dd. ***Penderfynwyd nodi holl benderfyniadau'r Pwyllgorau fel y maent yn ymddangos yn y Cofnodion.***

168/18 <u>Diwedd y Flwyddyn 2017/18:</u>

a. Archwiliad Allanol:

Cyflwynodd y Clerc adroddiad ar yr archwiliad ar gyfer Canlyniad Blynyddol 2017/18 gan BDO. Fe nodwyd bod y Cyngor wedi cael archwiliad diamwys gydag adroddiad am un mater bach yn unig (oherwydd y newid yn y cyfrifon am asedau sefydlog).

Penderfynwyd derbyn a nodi'r adroddiad archwiliad a'i gymeradwyo i gael ei gyhoeddi, yn unol â rheoliadau archwilio.

b. <u>Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol (IRPW):</u>

Cyflwynodd y Clerc canlyniad drafft diwedd y flwyddyn o'r lwfansau Cynghorwyr a dalwyd yn 2017/18 i gael eu cymeradwyo i gael eu cyhoeddi. Holwyd os oedd maint y costau teithio yn gywir. Cadarnhaodd y Clerc wrthynt eu bod yn gywir, am fod y polisi presennol yn golygu bod costau teithio yn cael eu talu o'r cartref am ddyletswyddau a gymeradwywyd.

Penderfynwyd cymeradwyo rhestr Lwfansau Cynghorwyr 2017/18 i gael ei gyhoeddi ar y wefan a'i ddychwelyd at Banel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol (IRPW).

169/18 <u>Grant Bach:</u>

Cyflwynodd y Clerc cais brys am gyllid i'w ystyried, gan Gymdeithas Masnachwyr Llandrillo yn Rhos ar gyfer cefnogaeth ariannol tuag at Gala Gwyliau'r 1960au (a dderbyniwyd ar 23/7, ond a ohiriwyd o gyfarfod Pwyllgor Polisi a Chyllid am na dderbyniwyd datganiad banc na chyllideb ganddynt).

Penderfynwyd cymeradwyo grant bach o £500 tuag at gostau'r digwyddiad.

170/18 <u>Elusennau Llandrillo:</u>

Cyflwynodd y Clerc, er gwybodaeth, cofnodion y cyfarfod yr Ymddiriedolwyr a gynhaliwyd ar 16eg Gorffennaf 2018 a gofynnwyd i'r Aelodau nodi diolchiadau'r Ymddiriedolwyr am y gefnogaeth ariannol a roddwyd iddynt gan y Cyngor Tref llynedd.

.

Daeth y cyfarfod i ben am 8.00 p.m.

.....Cadeirydd

MINUTES OF A MEETING OF THE BAY OF COLWYN TOWN COUNCIL, HELD IN THE COUNCIL CHAMBER, TOWN HALL, RHIW ROAD, COLWYN BAY, AT 6.30 P.M. ON MONDAY 3RD SEPTEMBER 2018

PRESENT: The Mayor, Cllr S Williams
Cllrs: N Bastow; D Bradley; C Brockley; Mrs H Fleet; M A Jones; Mrs M Jones; A Mason; C Matthews; J Pearson; P Richards; M Tasker;
M Worth

OFFICER: Mrs C Earley, Town Clerk

IN ATTENDANCE: Cllr C Carlisle, Conwy County Borough Council

90/11 Welcome and Apologies for Absence:

The Mayor welcomed members to the meeting and apologies for absence were received from Cllrs: G Baker, B Barton, G Campbell, D Howcroft, A Khan,
T Pearson and K Swindon.

91/11 Announcements:

There were no announcements from The Mayor.

92/11 Declarations of Interest:

Members were reminded that they must declare the existence and nature of any personal and/or prejudicial interests. None were declared.

93/11 Visitors to the Council:

a) The Clerk submitted, for consideration, an offer from the new local Neighbourhood Police Sgt, Lee Openshaw, to send representatives to future meetings to discuss any local policing issues. The Clerk queried whether members would prefer police liaison to form part of a full Council or an Committee meeting, or if it should be held outside of formal council meetings.
It was felt that the police and council members could be more open and frank in their discussions if these were held outside of a formal council meeting.

Resolved to suggest to Sgt Openshaw that we commence a pilot project of inviting a local neighbourhood police representative to attend an informal meeting with local members at 6pm, prior to each full Council meeting, and to just invite members from the ward that the representative(s) cover. Hopefully, this will ensure that all six wards (three areas) have been covered during an 18 week period.

b) It was noted that Steve Swindon of TAPE Community Music and Film will be attending the Council meeting on 3rd December.

c) County Council Liaison:

The Chairman welcomed County Councillor Cheryl Carlisle to the meeting and invited her to give a verbal report to update members on any matters of local interest. Cllr Carlisle thanked members for the invitation to attend and confirmed that she felt the meetings were valuable, however, there were inevitably clashes with other engagements from time to time.

She then gave a brief verbal report covering: expected cuts to the CCBC budget next year of around £15m, with the main pressures being on social care and health budgets; promenade/sea defence improvements at Old Colwyn (talks with stakeholders are continuing); A55 carriageway closures and impact on residential areas/roads; environmental enforcement and the new task and finish group set up to replace Kingdom; Coed Pella office opening expected to be on schedule; the Proms in the Park event next week; the preferred topics for future meetings – is a general overview what is wanted?

A brief question and answer session followed, with a preference for a general update to continue, ideally with a written report if none of the local members can attend.

94/11 <u>Minutes</u>:

a) Resolved to approve and sign as a correct record the minutes of the last meeting of the Council, held on 23rd July 2018.

b) Resolved to <u>receive</u> a copy of the minutes of the following meetings:
i) The General Purpose & Planning Committee held on 31st July 2018.
ii) The Policy & Finance Committee held on 22nd August 2018 (Draft)
iii) The General Purposes & Planning Committee held on 28th August 2018. (Draft)

95/11 <u>Matters Arising from Those Minutes</u>:

a) **Min. 115/18(a) - Corporate Plan:**

Resolved to approve the more detailed version of the Corporate Plan for 2018-2022 for publication on the website (hard copies available on request) and to include Councillor photographs and contact details, as per those currently published on the website.

b) **Action Plan 2018-19:**

The Clerk submitted, for consideration, the first draft of the action plan for 2018/19, to include the decisions already made by the Council for the current year. It was noted that this will be a working document, which will be reviewed and updated regularly and submitted for approval on a quarterly basis.

Resolved to approve the initial plan and note this will be updated regularly, with new projects and activities to be added as and when they

are approved by the Council.

c) **Min 118/18 – NWAMI Advisory Panel:**

The Clerk submitted, for consideration, a nomination for Cllr C Matthews to be appointed as the Town Council's representative and note the first meeting is to be held on 11th September. The Chairman asked if there were any other nominations and none were forthcoming.

Resolved to appoint Cllr C Matthews as the Town Council's representative on the Panel and to ask that he reports back to future GP&P Committee meetings.

d) **Min. 119/18 – Rev'd William Hughes:**

The Clerk submitted, for information, the initial response from Dr Marian Gwyn, providing the link to view the film and responding positively to the suggestion of a separate showing of the film, possibly at the Town Hall, during Black History month in October.

e) Members were requested to consider and endorse the recommendations of the Committees, as detailed in the following Minutes:

i) Min. 134/18(a) – Play Equipment Contribution:

Resolved to ask that the Clerk sends a request to BS to confirm that any match-funding received by CCBC from the funding given by this Council be earmarked for use in Bay of Colwyn play areas only, and to provide him with a letter of support that he can use when looking for grant finding.

ii) Min 134/18(c) – Coast Community and Media:

- Cllr J Pearson declared a personal and prejudicial interest, as a Director of Coast Community and Media, and retired from the meeting during this item.

Resolved unanimously to approve the allocation of two rooms in the rear annexe for use by the new community radio station, by way of a Tenancy at Will, which will give short term flexibility to both parties and provide income to the Council cover the occupational costs.

iii) Min. 136/18(a) – Review of Community and Town Council sector in Wales:

It was noted that a copy of the summary report is available on request from the Clerk.

Resolved to request that the Clerk writes to the N&MWALC to request that a study be undertaken into experiences of asset/service devolution across North and Mid Wales.

iv) Min. 139/18 – Member Proposals:

Resolved to endorse three project/policy proposals from members, as detailed in Schedule B, C & D to the minutes, namely:

(1) ***Community Hub and Family Wellbeing Centre:***

That the Council recognises that it has been established, by a recent consultation, that there is a convincing argument to create a Community Hub somewhere in the town centre. It can be noted that with the loss of St Paul's Church Hall a few years ago, that there is no single publicly owned place for our town centre community to congregate.

There is also an excellent suggestion that a Family Well-Being Centre be developed in Colwyn Bay. This Centre would serve the needs of every family in the Bay of Colwyn area and provide support for all generations, examples being mother and baby wellbeing, youth drop-in, community development and elderly drop-in sessions.

The Council recognises that this should be incorporated within the key objectives in its Corporate Plan, aligned to the Wellbeing of Future Generations, and that we seek to further the development of Douglas Road site for community use.

(2) ***Disability Friendly Bay of Colwyn:***

That the Council seeks to address the issues identified by Cllr Hughes in points 2,3 and 4 of his proposal (relating to issues with dropped kerbs and surface water gullies in central Colwyn Bay).

That all councillors be encouraged to engage with the Conwy Access Group and CVSC and undertake Ward audits to identify any access issues, with a view to developing a disabled access project to improve disabled access across the Bay of Colwyn area.

That the General Purpose & Planning Committee seeks to ensure, where practicable, that planning applications do not add additional barriers to disabled access.

(3) ***Safe Places for Children to Play:***

That the Council recognises improving the wellbeing of our young people as a key objective in our Corporate/Action Plan. In working towards this, the Council further recognises the need to provide safe places for children to play and will seek to encourage CCBC (as the local authority responsible for our play areas) and other organisations to ensure that adequate funding is available so that playgrounds and skate parks across the Bay of Colwyn are maintained in a good state of repair.

v) Min. 142/18(a) – Christmas Activities:

Resolved to approve payment of grants to Colwyn BID (£5,000) and ROSTA (£1,000), both to be match-funded by Colwyn BID, for Christmas events/activities.

vi) Min. 142/18 (c) (i) – Old Colwyn War Memorial:

Resolved to approve a grant of £1,575 towards the cost of adding names to the war memorial in time for this year's remembrance day service.

vii) Min. 142/18(c)(ii) – Crown Reduction of Tree:

Resolved to approve a small grant of £300 for tree works to improve CCTV coverage of St Paul's grounds, at the request of the police / Mayor (subject to Conservation Area / Tree Officer approval)

f) Resolved to note the resolutions of the Committees, as detailed in the Minutes.

96/11 <u>Year End 2017/18:</u>

***a)* External Audit:**

The Clerk submitted the audit report from BDO for the 2017/18 Annual Return. It was noted that the Council had received an unqualified audit, with only one minor issue reported (due to a change in accounting for fixed assets).

Resolved to receive and note the audit report and approve it for publication, in accordance with audit regulations.

***b)* IRPW:**

The Clerk submitted, for approval for publication, the draft year-end return of Cllr allowances paid in 2017/18. The amount of travel expenses was queried for accuracy and was confirmed by the Clerk as being correct, due to current policy of paying travel expenses for approved duties from home addresses.

Resolved to approve the 2017/18 Councillor Allowances schedule for publication on the website and returning to the IRPW.

97/11 <u>Small Grant:</u>

The Clerk submitted, for consideration, an urgent funding request from ROSTA for financial support for its 1960's Holiday Gala (received 23/7, but omitted from P&F Committee meeting as bank statement and budget was awaited).

Resolved to approve a small grant of £500 towards the costs of the event.

98/11 <u>Llandrillo Charities:</u>

The Clerk submitted, for information, the minutes of a meeting of the Trusts held on 16th July 2018 and members were asked to note the thanks of the Trustees for the funding support provided last year by the Town Council.

The meeting closed at 8:00 p.m.

…… Chairman